Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Dyffryn Aman
# Stryd Margaret
# Rhydaman
# Sir Gaerfyrddin
# SA18 2NW

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**



**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 04/12/2012**

## Cyd-destun

Ysgol ddwyieithog a gynhelir gan awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin yw Ysgol Dyffryn Aman. Mae 1,577 o ddisgyblion ar y gofrestr, gyda 303 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth. Mae cryn dipyn yn fwy o fechgyn na merched yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn Rhydaman wrth droed y Mynydd Du. Daw tua hanner y disgyblion o'r dref ei hun, a daw'r hanner arall o'r ardal wledig a'r pentrefi cyfagos. Cyfran y disgyblion a chanddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim yw 17.6%; mae'r ffigur hwn yn agos at y cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.4%.

Daw pedwar deg un y cant o ddisgyblion o gartrefi lle'r Gymraeg yw'r brif iaith. Mae pedwar deg naw y cant o ddisgyblion yn medru'r Gymraeg i safon mamiaith. Er bod mwyafrif y disgyblion yn dysgu trwy gyfrwng y Saesneg, bu cynnydd sylweddol yn yr addysgu dwyieithog a chyfrwng Cymraeg dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae disgyblion yn yr ysgol yn cynrychioli'r ystod gallu lawn. Mae gan ryw bedwar y cant o ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig o gymharu â 2.6% ar gyfer Cymru gyfan. Mae gan ddau ddeg tri y cant o ddisgyblion angen addysgol arbennig. Mae'r ffigur hwn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18.6%. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi agor cyfleuster addysgu arbenigol i 24 o ddisgyblion ag anawsterau dysgu difrifol ac anawsterau dysgu dwys a lluosog. Mae disgyblion yn mynychu ar sail ran-amser ar hyn o bryd wrth iddynt drosglwyddo o ysgol arall.

Penodwyd y pennaeth yn 2007. Roedd y dirprwy bennaeth a thri phennaeth cynorthwyol yn eu swydd adeg yr arolygiad diwethaf. Mae'r ysgol wedi penodi tri datblygwr cwricwlwm yn ddiweddar i ymuno â'r tîm arweinyddiaeth.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Dyffryn Aman yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,187 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn Sir Gaerfyrddin yw £7,322 a'r isafswm yw £4,096. Mae Ysgol Dyffryn Aman yn y deuddegfed safle o'r 14 o ysgolion uwchradd yn Sir Gaerfyrddin o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yn cynnwys llawer o nodweddion da, yn cynnwys:

- tuedd o welliant mewn perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 i lefel sy'n agos at ysgolion tebyg;
- ystod ragorol o brofiadau dysgu;
- addysgu o ansawdd da ym mwyafrif y gwersi;
- lefelau uchel o gymhelliant ymhlith disgyblion, a'u hagweddau cadarnhaol at waith a bywyd ysgol;
- ymddygiad da iawn y disgyblion mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol;
- lefel uchel o ofal a chymorth i ddisgyblion, yn enwedig y rhai ag anghenion addysgol arbennig; ac
- ethos cymunedol cryf yn yr ysgol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bu gwelliannau sylweddol yn ansawdd y ddarpariaeth a pherfformiad yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn y blynyddoedd diwethaf;
- bod y pennaeth a'r corff llywodraethol yn darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol a'i disgyblion;
- bod y pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn meddu ar ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella ymhellach;
- bod arweinwyr canol yn dangos ymrwymiad cryf i weledigaeth a chyfeiriad strategol yr ysgol;
- bod cyfathrebu rhwng staff ar bob lefel yn gryf; a
- bod y cynllun datblygu ysgol yn nodi blaenoriaethau priodol, yn cynnwys codi safonau, gwella'r addysgu a'r dysgu ac ansawdd monitro ac arfarnu.

## Argymhellion

A1 gwella medrau llythrennedd, yn enwedig darllen ac ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm;

A2 gwella ansawdd yr addysgu, gan ganolbwyntio'n benodol ar herio disgyblion uwch eu gallu;

A3 cryfhau prosesau hunanarfarnu i ganolbwyntio'n gliriach ar ddysgu disgyblion a'u cynnydd mewn gwersi;

A4 cynyddu lefel yr her y mae rheolwyr llinell yn ei rhoi i'r rhai y maent yn eu rheoli; a

A5 gwella ansawdd yr adborth ysgrifenedig i ddisgyblion, a lleihau amrywiad mewn adrannau ac yn yr ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

At ei gilydd, mae safonau yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 wedi dangos gwelliant sylweddol er 2008. Fodd bynnag, mae data dros dro yn dangos y bu gostyngiad bach ym mwyafrif y dangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 yn 2012.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd wedi gwella er 2010. Er bod perfformiad yn golygu bod yr ysgol islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion, mae hi yn y 50% uchaf o ysgolion sydd â lefelau tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Mae patrwm tebyg yn y pynciau craidd yn unigol. Fodd bynnag, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth a mathemateg yn fwy ffafriol na Chymraeg a Saesneg mamiaith o gymharu ag ysgolion sydd â lefelau tebyg o ran prydau ysgol am ddim.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella'n sylweddol. Mae perfformiad ym mhob dangosydd sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi gwella'n sylweddol. Er ei fod islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion, o gymharu ag ysgolion sydd â lefelau tebyg o ran prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yn 2010 a 2011 yn y 50% uchaf ar gyfer pob dangosydd. Yn 2012, mae data dros dro yn dangos bod perfformiad yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg yn parhau i fod yn y 50% uchaf o ysgolion sydd â lefelau tebyg o ran prydau ysgol am ddim.

At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 4.

Yng nghyfnod allweddol 3, ar draws mwyafrif o ddangosyddion, nid yw perfformiad bechgyn yn cymharu cystal â pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg. Fodd bynnag, erbyn cyfnod allweddol 4, mae perfformiad bechgyn yn y rhan fwyaf o ddangosyddion wedi gwella ac nid yw'n sylweddol is na pherfformiad merched mwyach. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni yn unol â'u gallu, a gwnânt gynnydd da iawn mewn gwersi. Hyd at 2010, roedd perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi gostwng. Fodd bynnag, yn 2011, bu gwelliant sylweddol yn eu perfformiad.

Mae perfformiad myfyrwyr y chweched dosbarth, ac yn arbennig bechgyn yn y chweched dosbarth, islaw cyfartaleddau'r teulu, Cymru a'r awdurdod lleol.

Ar ôl Blwyddyn 11, mae bron pob disgybl yn parhau mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae'r ffigur hwn yn well na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru. Dros y tair blynedd diwethaf, nid oes yr un disgybl wedi gadael yr ysgol heb ennill cymhwyster cydnabyddedig.

Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da, gan adeiladu'n effeithiol ar ddysgu blaenorol a datblygu ystod o fedrau, yn ogystal â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o destunau newydd. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw'r disgyblion mwyaf abl yn y grŵp yn gwneud digon o gynnydd. Mae hyn yn aml am nad yw'r gwaith a roddir yn ddigon heriol i ymestyn eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n ofalus; maent yn ymateb yn gyflym i gyfarwyddiadau, ac yn defnyddio'u hamser mewn modd cynhyrchiol. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o ddisgyblion yn gwrando'n ddigon da ar eu cyfoedion. Mae llawer ohonynt yn cynnig esboniadau clir pan fydd athrawon yn eu holi, ac maent yn fodlon iawn i gyfrannu at drafodaethau dosbarth. Mae tua hanner y disgyblion yn rhoi ymatebion llafar manwl, ac mae llawer ohonynt yn gwneud defnydd priodol ac ystyriol o derminoleg sy'n benodol i bwnc. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n dda gyda'u cyfoedion, mewn parau a grwpiau bach.

Mae llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr hyderus a chywir. Mewn lleiafrif o bynciau, gallant ddod o hyd i wybodaeth gymhleth a'i chrynhoi, ac maent yn cyfeirio'n dda at destunau i gefnogi eu dadleuon. Gallant gyfosod gwybodaeth a dod i gasgliadau dilys a manwl. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn ymarfer medrau darllen lefel uwch yn ddigon da ar draws ystod eang o bynciau'r cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall rheolau gramadeg sylfaenol, ac yn eu defnyddio'n gywir. Mae eu sillafu a'u hatalnodi yn briodol i'w hoedran. Mewn lleiafrif o bynciau, mae disgyblion yn ysgrifennu darnau o ysgrifennu estynedig o ansawdd da yn rheolaidd. Gallant ysgrifennu at wahanol ddibenion, er enghraifft ysgrifennu perswadiol, cofnodion dyddiadur, adroddiadau ac erthyglau papur newydd. Mewn rhai pynciau, mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o fathau o destun a'r arddull ysgrifennu fwyaf priodol ar gyfer y gynulleidfa dan sylw. Er bod ansawdd yr ysgrifennu'n dda, nid yw disgyblion yn ymarfer y medrau hyn ar draws ystod ddigon eang o bynciau. Mae disgyblion yn cynhyrchu llai o ddarnau o ysgrifennu estynedig mewn Cymraeg mamiaith nag y maent yn Saesneg.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd gofal priodol gyda chyflwyniad eu gwaith ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae gan rai disgyblion waith ar goll neu waith anghyflawn, ac er bod hyn yn cael ei nodi gan yr athro, nid eir i'r afael ag ef.

Mewn Cymraeg mamiaith yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad dros y tair blynedd diwethaf wedi gwella'n sylweddol. Fodd bynnag, yn 2012, mae ei pherfformiad yn parhau i olygu bod yr ysgol ymhlith y 25% isaf o ysgolion o ran prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad mewn Cymraeg ail iaith wedi gwella hefyd, ond bu yn y 50% isaf o ysgolion sydd â lefelau tebyg o ran prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 4, caiff bron pob disgybl ei gofrestru ar gyfer cymhwyster ffurfiol naill ai mewn Cymraeg mamiaith neu Gymraeg ail iaith. Mae perfformiad mewn Cymraeg mamiaith islaw perfformiad ysgolion tebyg, ond mae perfformiad mewn Cymraeg ail iaith yn agos at berfformiad ysgolion tebyg.

## Lles: Da

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deall pwysigrwydd ffordd iach o fyw ac ymarfer corff rheolaidd. Mae cyfraddau cyfranogi ar draws ystod o weithgareddau chwaraeon yn dda iawn. Teimla llawer o ddisgyblion fod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol, ac maent yn gwrtais â'u cyfoedion, oedolion eraill ac ymwelwyr ac yn dangos parch atynt. Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos lefelau uchel o gymhelliant ac maent yn awyddus i ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi a chyfnodau cofrestru yn brydlon.

Dros y pum mlynedd diwethaf, ychydig o welliant a welwyd mewn presenoldeb. Fodd bynnag, yn 2011, roedd yn agos at ddisgwyliadau, ond yn y 50% gwaelod o gymharu ag ysgolion sydd â lefelau tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Mae gwaharddiadau cyfnod penodol yn isel, ac ni fu unrhyw waharddiadau parhaol yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Mae'r cyngor ysgol yn datblygu'n dda fel fforwm effeithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae'r fforwm hwn wedi datblygu'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r cyngor ysgol yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddysgu, ac mae ganddo rôl lawn yn y penderfyniadau amgylcheddol a wneir. Mae wedi dylanwadu ar bolisi'r ysgol, yn enwedig trwy ymgynghori â nhw ar ddatblygu'r adeilad newydd. Mae llywodraethwyr disgyblion cysylltiol, ac maent yn mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethol yn rheolaidd.

Nodwedd gref o'r ysgol yw'r ffaith fod gan bron pob un o'r disgyblion ran arwyddocaol yn eu cymuned leol. Maent wedi codi swm sylweddol o arian ar gyfer elusennau lleol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ystod dda o fedrau cymdeithasol a bywyd, ac mae disgyblion hŷn yn awyddus i gymryd cyfrifoldebau ychwanegol, er enghraifft gweithredu fel cyfeillion i gynorthwyo disgyblion iau.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Rhagorol

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys iawn sy'n bodloni'r holl ofynion statudol. Ceir cydweithio hynod effeithiol gyda phartneriaid yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16 i ddarparu ystod eang o lwybrau cyffredinol a galwedigaethol. Mae'r rhain yn bodloni anghenion a dyheadau disgyblion yn dda. Mae'r cwricwlwm yn rhoi ystyriaeth lawn i ddiddordebau arbennig ac arddulliau dysgu unigolion. Mae hyn wedi arwain at ddeilliannau gwell yng nghyfnod allweddol 4 a gwelliannau mewn ymddygiad hefyd.

Cynigir Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefelau canolraddol, sylfaenol ac uwch. Mae disgyblion yn gweithio tuag at gymwysterau medrau hanfodol (Cymru) yng nghyfnod allweddol 3 i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer eu gwaith yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth.

Mae darpariaeth dda iawn ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol a chwaraeon. Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o glybiau ar ôl yr ysgol fel peirianneg a seryddiaeth. Mae'r rhain yn boblogaidd, ac mae nifer dda yn eu mynychu'n rheolaidd. Cynigir amrywiaeth eang o wibdeithiau addysgol ac ymweliadau tramor hefyd. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfoethogi profiadau personol disgyblion, yn datblygu ymdeimlad cryf o gymuned ac yn cyfrannu'n effeithiol tuag at eu lles.

Mae'r ysgol wedi defnyddio dull arloesol a strategol o ddatblygu ei darpariaeth ddwyieithog. Mae cysylltiadau cryf gydag ysgolion cynradd partner, ac asiantaethau eraill, wedi arwain at drawsnewid y ddarpariaeth a chynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion sy'n dewis derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Dros y tair blynedd diwethaf, bu cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel mamiaith yn ogystal ag astudio ystod eang o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae deilliannau yn y grwpiau hyn ac mewn Cymraeg mamiaith yng nghyfnod allweddol 3 wedi dangos gwelliant sylweddol.

Caiff materion yn ymwneud â datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang eu harchwilio'n helaeth ar draws ystod eang o feysydd y cwricwlwm. Mae'r eco-bwyllgor yn ymgymryd â rôl weithredol iawn mewn mentrau ysgol gyfan i arbed ynni, gwella ailgylchu a chodi ymwybyddiaeth am faterion byd-eang.

Mae'r ysgol wedi gweithio'n dda dros y chwe mis diwethaf i wella cydlynu a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu datblygu y mae agweddau ar y gwaith hwn, fel cysondeb ar draws meysydd pwnc. Mewn rhai meysydd pwnc, mae darpariaeth hynod effeithiol i ddatblygu medrau disgyblion, yn enwedig medrau ysgrifennu a darllen lefel uwch, er nad oes digon o gyfleoedd ar draws y cwricwlwm.

**Addysgu: Digonol**

Nodwedd gref o'r ysgol yw'r perthnasoedd cadarnhaol iawn rhwng disgyblion a staff. Caiff hyn effaith dda ar gymhelliant disgyblion a'u parodrwydd i ddysgu. Mae bron pob un o'r athrawon yn rheoli ymddygiad yn effeithiol, ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad disgyblion.

Mae bron pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes, ac maent yn dangos brwdfrydedd amlwg dros eu pynciau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodel iaith da ar gyfer disgyblion.

Mewn ychydig iawn o wersi, mae'r holi yn dreiddgar ac yn hynod effeithiol. Mae'r holi parhaus a heriol hwn yn ennyn diddordeb pob disgybl, ac yn procio eu dealltwriaeth yn llawn. O ganlyniad, mae disgyblion yn y gwersi hyn yn gwneud cynnydd eithriadol. Yn y mwyafrif o wersi, mae athrawon yn cynllunio'n briodol i fodloni anghenion disgyblion ar draws yr ystod gallu, yn enwedig disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gweithgareddau yn ddifyr a diddorol ac mae cyflymder y gwersi hyn yn briodol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgwyliadau'r rhai mwyaf abl yn ddigon uchel, ac nid ydynt yn cyflawni eu llawn botensial.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, ac mewn llawer o achosion, maent yn rhoi adborth manwl. Fodd bynnag, dim ond mewn lleiafrif o achosion y

mae'r adborth hwn yn dangos yn glir yr hyn y mae angen i ddisgyblion ei wneud i wella eu gwaith. Mae ansawdd a maint yr adborth ysgrifenedig yn amrywio gormod mewn adrannau ac ar draws yr ysgol. Mewn rhai pynciau, mae trefniadau sefydledig ac effeithiol i ddisgyblion asesu eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu cyfoedion. Nid yw hyn wedi'i ddatblygu'n llawn ar draws adrannau.

Mae'r ysgol yn rhoi adroddiadau manwl i rieni ddwywaith y flwyddyn. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys sylwebaethau pwnc defnyddiol gyda graddau am ymdrech, cyrhaeddiad a pherfformiad presennol. Fodd bynnag, nid yw llawer o adroddiadau pwnc yn cynnwys targedau penodol i helpu disgyblion i wella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol system olrhain gadarn i gofnodi cynnydd disgyblion. Caiff y system hon ei defnyddio'n rheolaidd gan athrawon dosbarth i fonitro cynnydd. Mewn rhai meysydd pwnc, mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gefnogi eu haddysgu a'u cynllunio.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau cynhwysfawr ac effeithiol ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad. Mae'r rhain yn cynorthwyo disgyblion yn effeithiol ac yn cyfrannu'n dda at iechyd, lles a dysgu'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol raglen addysg bersonol a chymdeithasol fanwl sy'n bodloni'r gofynion. Mae darpariaeth effeithiol a sefydledig ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol disgyblion. Rhoddir cyfle priodol i ddisgyblion fyfyrio, trafod a dadlau am faterion cymdeithasol a moesol, yn enwedig trwy'r gwersi addysg grefyddol, y gwasanaethau ysgol ac yn ystod sesiynau myfyrdod y dydd.

Mae gan yr ysgol berthynas gadarnhaol gydag asiantaethau allanol. Mae hyn yn sicrhau cymorth gwerth chweil ac amserol i ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed. Mae cwnselwr ysgol ar gael i bob disgybl naill ai drwy hunangyfeirio neu drwy ddeialog gyda'r pennaeth blwyddyn a'r rhieni.

Defnyddir dull hynod effeithiol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae targedau wedi'u diffinio'n glir, a chânt eu monitro'n rheolaidd. Caiff disgyblion a rhieni eu cynnwys yn weithredol wrth gynllunio ar gyfer gweithredu pellach. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn darparu cymorth effeithiol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hynod gynhwysol sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae ethos croesawgar a gofalgar lle caiff unigoliaeth ei gwerthfawrogi a'i dathlu. Mae parch amlwg ar y ddwy ochr rhwng staff a disgyblion. Yng nghymuned yr ysgol, ceir ethos Cymreig cryf sy'n treiddio i bob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Er gwaethaf poblogaeth fawr yr ysgol ac ailadeiladu helaeth er 2011, mae'r safle yn cynnig amgylchedd ysgogol ar gyfer disgyblion. Mae ystafelloedd dosbarth yn olau ac wedi'u haddurno'n dda. Mae arddangosiadau ystafell ddosbarth diddorol ac ysgogol. Mae mynediad ar gyfer disgyblion ac ymwelwyr anabl yn dda. Mae cyfleusterau o ansawdd da iawn mewn nifer o feysydd, er enghraifft dylunio a thechnoleg a chanolfan newydd Amanwy i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rhoi cyfeiriad strategol clir i'r ysgol a'i disgyblion. Nodau trosfwaol yr ysgol yw gwella'r cyfleoedd i'w disgyblion a chodi safonau cyflawniad. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth ar y cyd o'r modd y dylai'r ysgol symud ymlaen, er enghraifft, mewn perthynas ag ystod y cyfleoedd dysgu a ddarperir a datblygu darpariaeth ymhellach trwy gyfrwng y Gymraeg.

Bu arweinyddiaeth gref y pennaeth yn ffactor allweddol yn y gwelliannau mewn darpariaeth a safonau sydd wedi digwydd dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r dirprwy bennaeth ac aelodau eraill o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn rhoi cymorth da ac yn cyflawni eu rolau yn effeithiol.

Mae rolau a chyfrifoldebau ar bob lefel wedi'u diffinio'n glir ac yn cael eu deall yn dda. Ar y cyfan, caiff cyfrifoldebau eu dyrannu'n briodol i arweinwyr unigol; fodd bynnag, mae lefel ymrwymiad addysgu rhai arweinwyr yn cyfyngu ar yr amser a gânt i gyflawni eu dyletswyddau arwain. Mae cyfathrebu rhwng staff ar bob lefel yn gryfder arbennig yn yr ysgol.

Mae arweinwyr canol yn dangos ymrwymiad cryf i weledigaeth a chyfeiriad strategol yr ysgol. Yn gyffredinol, maent yn rheoli eu hadrannau yn effeithiol. Mae system rheolwyr llinell briodol ar waith ac mae pob un o'r staff yn ei deall. Mae uwch arweinwyr yn rhoi cymorth da i'r arweinwyr canol y maent yn eu rheoli; fodd bynnag, nid yw eu rôl wrth herio'r arweinwyr hynny wedi'i datblygu cystal.

Mae cyfarfodydd rheolaidd ar bob lefel yn canolbwyntio ar faterion perthnasol sy'n ymwneud â'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac yn arbennig blaenoriaethau ysgol gyfan ac adrannol. Fodd bynnag, mae diffyg cysondeb o ran cofnodi cyfarfodydd yn ffurfiol a phwyntiau gweithredu o gyfarfodydd. Ar adegau, mae hyn yn rhwystro monitro cynnydd dilynol yn effeithiol.

Mae rheoli perfformiad ar waith ar gyfer pob un o'r staff, ac fe gaiff ei weithredu'n gyson. Mae gan bob un o'r staff dargedau unigol ac fe gânt yr hyfforddiant sydd ei angen i'w galluogi i fodloni'r targedau hynny.

Mae'r corff llywodraethol yn cynnwys cydbwysedd priodol o lywodraethwyr profiadol a newyddach. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rôl ac maent yn rhoi cymorth cryf i'r pennaeth a'r ysgol. Rhoddir gwybodaeth dda i lywodraethwyr trwy adroddiadau a chyflwyniadau gan y pennaeth ac aelodau eraill o staff. Maent yn

ymwybodol o brif gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella, ac maent yn herio'r ysgol ar faterion y maent yn pryderu yn eu cylch. Mae gan lywodraethwyr rôl briodol wrth gynllunio cyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i flaenoriaethau cenedlaethol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol ystod briodol o weithdrefnau sicrhau ansawdd ar waith. Mae wedi nodi meysydd i'w gwella ac mae'r camau a gymerwyd wedi arwain at welliannau mewn meysydd pwysig ers yr arolygiad diwethaf. Fodd bynnag, nid yw rheolwyr wedi cael digon o effaith ar ansawdd yr addysgu a'r cynnydd a wna disgyblion mewn gwersi. Ni wnaed digon o gynnydd wrth ddatblygu rôl rheolwyr canol mewn hunanarfarnu.

Mae uwch arweinwyr yn cynnal rhaglen addas o adolygiadau pwnc mewn cylch tair blynedd. Mae'r rhain yn cynnwys arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau yn helaeth ac maent yn cynnwys arweinwyr pwnc, sy'n ddefnyddiol. Mae adroddiadau adolygu yn llawn gwybodaeth, ac mae enghreifftiau mwy diweddar yn cynnwys ffocws cynyddol ar gynnydd a safonau mewn dosbarthiadau. Mae arweinwyr pwnc hefyd yn arsylwi gwersi ac yn craffu ar lyfrau disgyblion yn helaeth. Fodd bynnag, mae diffyg trylwyredd yn yr arfarniadau hyn o gynnydd disgyblion ac addysgu.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen arfarnol. Mae'n cynnwys dadansoddiad manwl o ddata perfformiad, a chrynodebau defnyddiol o feysydd y mae angen eu gwella. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn rhoi darlun digon cywir o ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol ac effeithiolrwydd hunanarfarnu ar lefel rheolaeth ganol.

Mae rheolwyr canol yn gwneud defnydd cynyddol o ddata i lywio dogfen 'Cynllunio ar gyfer Llwyddiant' yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r dadansoddiadau hyn yn gwneud digon o ddefnydd o gymariaethau gydag ysgolion tebyg a nodi tueddiadau mewn perfformiad. Nid oes adroddiadau hunanarfarnu pwnc i ddwyn tystiolaeth o wahanol ffynonellau ynghyd a llywio cynllunio datblygiad.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen gryno sy'n nodi blaenoriaethau priodol, yn cynnwys codi safonau, gwella'r addysgu a'r dysgu ac ansawdd monitro ac arfarnu. Fodd bynnag, nid yw'r camau y dylid eu cymryd bob amser yn ddigon penodol a manwl. Mae cynlluniau datblygu adrannol yn nodi nifer addas o flaenoriaethau sy'n cysylltu'n briodol â'r cynllun datblygu ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r canfyddiadau o arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau disgyblion yn llywio cynllunio datblygu ysgol na phwnc yn ddigon clir.

Mae pob un o'r athrawon yn cymryd rhan mewn ystod o weithgorau sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion, rhannu arfer dda neu ddatblygu mentrau. Mae'r grŵp addysgu a dysgu a sefydlwyd yn ddiweddar wedi cyflwyno'i ganfyddiadau ar ddefnyddio holi mewn arsylwadau ystafell ddosbarth. Nid yw hyn wedi cael digon o effaith ar wella ansawdd y dysgu mewn dosbarthiadau eto. Mae'r cyfleoedd i elwa ar gysylltiadau ag ysgolion eraill yn fwy cyfyngedig.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau effeithiol a sefydledig. Mae'r bartneriaeth gyda chlwstwr 14-19 Dinefwr yn gryf iawn. Mae hyn wedi galluogi'r ysgol i ymestyn ystod yr opsiynau academaidd a galwedigaethol sydd ar gael i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16. Mae'r datblygiadau hyn wedi cyfrannu at ddeilliannau gwell yng nghyfnod allweddol 4 ac wedi arwain at ostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig. Mae trefniadau cryf i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth glwstwr hon.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf gyda'i hysgolion cynradd partner. Mae ystod eang o brosiectau effeithiol sy'n helpu disgyblion â'r pontio i'r ysgol uwchradd. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn ymgynefino'n gyflym ym Mlwyddyn 7.

Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaethau effeithiol gyda'r gymuned leol. Mae'r partneriaethau hyn yn cryfhau dealltwriaeth disgyblion o'u cymuned ac yn gwella eu gwybodaeth am faterion cymdeithasol.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau gwerth chweil gyda chyflogwyr lleol. Mae disgyblion yn elwa ar leoliadau gwaith a gwaith prosiect gyda chyflogwyr sy'n datblygu eu medrau galwedigaethol a'u dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau yn y gweithle.

Mae'r bartneriaeth â rhieni yn dda. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda â rhieni trwy gyfarfodydd rheolaidd, nosweithiau opsiynau a gohebiaeth ysgrifenedig.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon sydd â chymwysterau addas i fodloni gofynion y cwricwlwm statudol ac i sicrhau darpariaeth eang a chytbwys ar gyfer disgyblion. Caiff athrawon eu defnyddio'n effeithiol, ac ychydig iawn o wersi sy'n cael eu haddysgu gan rai nad ydynt yn arbenigwyr. Mae'r ysgol yn cyflogi ystod addas o staff nad ydynt yn addysgu i roi cymorth da i athrawon. Mae trefniadau priodol ar waith ar gyfer datblygiad proffesiynol pob aelod o staff ac ar gyfer ymsefydlu athrawon sydd newydd gymhwyso.

Mae'r pennaeth ac is-bwyllgor cyllid y corff llywodraethol yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol mewn perthynas â chyllideb yr ysgol. Mae penderfyniadau am wariant yn adlewyrchu blaenoriaethau'r ysgol ac adrannau yn glir. Mae'r rheolwr gweinyddol yn gweithio'n agos gyda'r pennaeth i fonitro gwariant o ddydd i ddydd. Mae adroddiad diweddaraf yr archwilwyr yn nodi arfer ragorol mewn llawer o feysydd, ac nid oes unrhyw faterion i fynd i'r afael â nhw.

Mae gan yr ysgol gyllideb briodol dros ben, sydd wedi'i chymeradwyo gan yr awdurdod lleol, ac mae ganddi gynlluniau addas ar gyfer defnyddio'r cyllid hwn dros y blynyddoedd nesaf.

O ystyried y safonau a gyflawnir ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wedi gwella er 2010. Fodd bynnag, mae perfformiad yn parhau i olygu bod yr ysgol islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion, ond mae yn y 50% uchaf o ysgolion sydd â lefelau tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Mae patrwm tebyg yn y pynciau craidd yn unigol. Yn 2012, gwyddoniaeth oedd yr unig bwnc craidd lle'r oedd perfformiad ar lefel 5 neu'n uwch yn golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion sydd â lefelau tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Yn 2012, roedd perfformiad mewn mathemateg yn golygu bod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion sydd â lefelau tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Roedd perfformiad mewn Saesneg yn golygu bod yr ysgol yn y 50% isaf o ysgolion am y tro cyntaf mewn dwy flynedd.

At ei gilydd, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth a mathemateg yn fwy ffafriol o gymharu ag ysgolion sydd â lefelau tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni ar lefel 6 neu'n uwch hefyd islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Mae perfformiad ar lefel 7 neu'n uwch yn debyg, er bod gwyddoniaeth a mathemateg eto ill dau yn llawer cryfach na Saesneg a Chymraeg mamiaith.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae cyrhaeddiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella'n sylweddol. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Mae perfformiad yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi gwella'n sylweddol. Fodd bynnag, mae islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. O gymharu ag ysgolion sydd â lefelau tebyg o ran prydau ysgol am ddim, mae perfformiad yn 2011 yn y 50% uchaf ar gyfer pob dangosydd.

Er 2008, er bod y dangosydd pwnc craidd wedi gwella, mae'n parhau i fod islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Fodd bynnag, yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad wedi bod yn y 50% uchaf o ysgolion sydd â lefelau tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Yn ystod yr un cyfnod, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2 wedi cynyddu hefyd. Fodd bynnag, mae perfformiad o gymharu ag ysgolion sydd â lefelau tebyg o ran prydau ysgol am ddim, yn fwy ffafriol na'r gymhariaeth â'r teulu o ysgolion. Yn ystod yr un cyfnod, mae'r canlyniadau ar gyfer trothwy lefel 1 wedi gwella, ac mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf o ysgolion tebyg erbyn hyn. Fodd bynnag, mae perfformiad islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion, ac mae data dros dro ar gyfer 2012 yn dangos bod perfformiad yn awr yn golygu bod yr ysgol yn y 50% isaf o ysgolion sydd â lefelau tebyg o ran prydau ysgol am ddim. Er bod y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion, am y tro cyntaf yn 2011, mae'n golygu bod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae data dros dro ar gyfer 2012 yn nodi ei bod yn y 50% uchaf o ysgolion erbyn hyn.

Yng nghyfnod allweddol 3, ar draws ystod o ddangosyddion, nid yw perfformiad bechgyn yn cymharu cystal â pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, nid yw tanberfformiad bechgyn yn fater arwyddocaol. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni yn unol â'u gallu ac yn gwneud cynnydd da iawn. \

Yn y chweched dosbarth, nid yw perfformiad cyffredinol, ac yn enwedig perfformiad bechgyn, yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru.

Ar ôl Blwyddyn 11, mae bron pob disgybl yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Dros y tair blynedd diwethaf, ni adawodd yr un disgybl yr ysgol heb ennill o leiaf un cymhwyster cydnabyddedig. Mae'r ffigur hwn yn well na chyfartaleddau'r awdurdod lleol a Chymru.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Holiaduron i ddysgwyr

Cafodd Estyn ymatebion gan 399 o ddisgyblion, a ddewiswyd ar hap ar draws yr ystod oedran. Roedd bron pob ymateb yn debyg i'r ymatebion o ysgolion uwchradd eraill.

Dywed bron pob un o'r disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod rhywun y gallant droi ato os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae llawer o ddisgyblion yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio. Mae canran y disgyblion sy'n teimlo bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio yn is nag ydyw mewn ysgolion uwchradd eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn credu eu bod yn gwneud yn dda a bod staff yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd, ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn credu bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer, ac mae llawer ohonynt yn teimlo bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith. Dywed llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a mwyafrif y myfyrwyr yn y chweched dosbarth y cawsant gyngor da wrth iddynt ddewis eu cyrsiau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n dda ar gyfer addysg bellach neu gyflogaeth.

Dywed llawer o ddisgyblion fod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn nodi bod digonedd o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae llawer o ddisgyblion yn cadarnhau bod yr ysgol yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill, ac mae llawer ohonynt yn credu bod staff yn eu trin yn deg ac yn eu parchu.

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn ystyried eu safbwyntiau. Mae mwyafrif y disgyblion hefyd yn dweud bod disgyblion yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith.

### Holiaduron i rieni

Cafwyd tri chant dau ddeg o holiaduron i rieni, ac yn gyffredinol, mynegodd y rhieni safbwyntiau cadarnhaol am yr ysgol.

Mae bron pob un o’r rhieni yn fodlon â’r ysgol ac yn dweud bod eu plentyn yn hoffi’r ysgol. Dywed bron pob rhiant fod eu plentyn yn gwneud cynnydd da ac y cafodd gymorth i ymgynefino pan ddechreuodd yn yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod eu plentyn yn ddiogel yn yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a bod yr addysgu’n dda, ac mae bron pob un ohonynt yn teimlo bod staff yn disgwyl i’w plentyn weithio’n galed a gwneud ei orau/gorau.

Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod eu plentyn yn cael ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd, a dod yn fwy aeddfed a chymryd cyfrifoldeb. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod ystod dda o weithgareddau. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn cytuno bod gwaith cartref yr ysgol yn adeiladu’n dda ar waith yr ysgol, ac mae llawer ohonynt yn credu bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod y staff yn trin pob plentyn yn deg ac yn eu parchu. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol, ac mae llawer ohonynt yn credu bod eu plentyn yn cael ei baratoi’n dda ar gyfer cyfnod nesaf y dysgu neu gyflogaeth.

Mae’r rhan fwyaf o rieni’n teimlo bod yr ysgol yn rhoi gwybodaeth dda iddynt am gynnydd eu plentyn. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau neu broblem, ac maent yn deall gweithdrefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Catherine Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Iolo Dafydd | Arolygydd Tîm |
| Geraldine Thomas | Arolygydd Tîm |
| Kevin Adams | Arolygydd Tîm |
| Huw Collins | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Nicola James | Arolygydd Cymheiriaid |
| Sion Watkins | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |